

Briff Ymchwil

# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

- Crynodeb o'r Ddeddf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Philippa Watkins**
Dyddiad: **Hydref 2017**
Rhif Papur: **17-025**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6320**
: **Philippa.Watkins@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Y cefndir ..... 1
2. Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud? ..... 1
   - Rhan 2 Gordewdra ..... 1
   - Rhan 3 Tybaco a chynhyrchion nicotin ..... 1
   - Rhan 4 Triniaethau arbennig ..... 2
   - Rhan 5 Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ..... 2
   - Rhan 6 Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd ..... 2
   - Rhan 7 Gwasanaethau fferyllol ..... 3
   - Rhan 8 Darpariaeth toiledau ..... 3
   - Rhan 9 Amrywiol a chyffredinol ..... 3
3. Hynt drwy'r Cynulliad ..... 4
   - Cyflwyniad ..... 4
   - Cyfnod 1 ..... 4
   - Cyfnod 2 ..... 4
   - Cyfnod 3 ..... 4
   - Cyfnod 4 ..... 4
   - Cydsyniad Brenhinol ..... 5
4. Gweithredu'r Ddeddf ..... 5

# 1. Y cefndir

Cafodd **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017.

Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â nifer o bryderon penodol ym maes iechyd y cyhoedd, a chreu amgylchiadau cymdeithasol sy'n ffafriol i iechyd da a lle y mae modd atal niwed y gellid ei osgoi. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gordewdra, tybaco a chynhyrchion nicotin, triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio), rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, asesiadau o'r effaith ar iechyd, gwasanaethau fferyllol, a darparu toiledau cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio mai'r bwriad yw i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd weithredu ochr yn ochr ag ystod o gamau gweithredu eraill i wella iechyd y cyhoedd (gan gynnwys camau deddfwriaethol eraill, yn ogystal â gwasanaethau, rhaglenni ac ymgyrchoedd ym maes iechyd y cyhoedd).

Dyma'r ail dro i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth o'r fath. Cyflwynodd y Llywodraeth flaenorol **Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)** ym mis Mehefin 2015. Gwrthodwyd y Bil hwnnw yng Nghyfnod 4 ym mis Mawrth 2016.

Cafodd Bil 2015 ei ragflaenu gan **Bapur Gwyrdd** ar iechyd y cyhoedd a gyhoeddwyd yn 2012. Dilynwyd hwn, ym mis Ebrill 2014, gan **Bapur Gwyn** a oedd yn cyflwyno cyfres o gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

Roedd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2016 ar ffurf y Bil blaenorol fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3, ond heb yr adrannau a oedd yn cyfyngu ar ddefnyddio sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig.

# 2. Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

## Rhan 2 Gordewdra

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra a lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru. Cynhelir ymgynghoriad ar y strategaeth, a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad ar ôl pob adolygiad.

## Rhan 3 Tybaco a chynhyrchion nicotin

Mae'r rhan hon yn cynnwys pedair pennod:

**Mae Pennod 1** yn ailddatgan cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a mannau gwaith sy'n gaeedig ac yn sylweddol gaeedig. Yn ogystal, mae'n gosod cyfyngiadau ar ysmygu mewn lleoliadau gofal awyr agored ar gyfer plant, tir ysgolion, tir ysbytai a meysydd chwarae cyhoeddus. Dywed y **Memorandwm Esboniadol** i'r Bil (PDF 2MB) mai diben cyfyngu ar ysmygu mewn mannau nad ydynt yn gaeedig, er enghraifft tir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae i blant, yw dad-normaleiddio ysmygu gan y byddai llai o gyfleoedd i weld pobl yn ysmygu. Yn ogystal, bwriad y darpariaethau sy’n ymwneud â thir ysbytai yw hybu newid mewn ymddygiad a chynorthwyo ysmygwyr sy’n defnyddio gwasanaethau ysbytai i roi’r gorau i ysmygu. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau ar ysmygu i adeiladau neu gerbydau ychwanegol, pan ystyrir bod hyn yn 'debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru'.

**Mae Pennod 2** yn sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. Bydd yn ofynnol i'r holl fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin yng Nghymru gofrestru er mwyn cael gwerthu'r cynhyrchion hyn - bydd yn drosedd i werthu tybaco/cynhyrchion nicotin o safleoedd (gan gynnwys unedau symudol) yng Nghymru os nad ydynt ar y gofrestr genedlaethol. Trwy roi rhestr ddiffiniol i awdurdodau lleol o fanwerthwyr yn eu hardaloedd sy'n gwerthu tybaco neu gynhyrchion nicotin, rhagwelir y bydd y gofrestr yn eu cynorthwyo i orfodi deddfwriaeth tybaco a nicotin, megis ym maes oedran gwerthu (tybaco a chynhyrchion nicotin) ac arddangos cynhyrchion tybaco. Defnyddir y gofrestr hefyd i ddosbarthu gwybodaeth a chanllawiau i fanwerthwyr.

**Mae Pennod 3** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru. (Mae Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn gwahardd y busnes a phob un o'i staff rhag gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco o'r safle dan sylw i unrhyw berson, am gyfnod o hyd at flwyddyn). Rhaid i droseddau o'r fath fod yn ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, hysbysebu neu feddu ar gynhyrchion tybaco neu nicotin, neu eu cynnig i'w gwerthu.

**Mae Pennod 4** yn gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i unigolyn o dan 18 oed. Mae hyn yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae gyrrwr cerbyd sy'n danfon nwyddau, er enghraifft, yn rhoi cynhyrchion tybaco neu nicotin i rywun nad yw yng nghwmni oedolyn, gan wybod ei fod o dan 18 oed. (Mae prynu gan ddirprwy, lle mae oedolyn yn prynu (neu'n ceisio prynu) cynhyrchion tybaco ar gyfer person neu bersonau o dan 18 oed eisoes yn drosedd o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014). Nod y rhan hon o'r Ddeddf yw lleihau'r risg y gallai pobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar dybaco a/neu gynhyrchion nicotin drwy eu prynu o bell, h.y. drwy'r rhyngrwyd neu dros y ffôn).

## Rhan 4 Triniaethau arbennig

Mae'r Ddeddf yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Y pedair triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf yw aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio. Bydd yn drosedd i ymarferydd gynnal unrhyw un o'r triniaethau arbennig hyn heb drwydded, neu gyflawni unrhyw driniaethau o safle neu gerbyd nad yw wedi'i gymeradwyo. Y diben cyffredinol yw sicrhau nad yw triniaethau arbennig, pan fyddant yn cael eu darparu, yn cael eu cyflawni mewn modd a allai achosi niwed i iechyd. Ceir darpariaeth i ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig (neu i dynnu triniaethau oddi arni) trwy reoliadau, i ystyried arferion newydd a newidiadau mewn tueddiadau, ac unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o risg i iechyd y cyhoedd.

## Rhan 5 Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

Mae'r Ddeddf yn gwahardd y weithred o roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolyn sydd o dan 18 mlwydd oed yng Nghymru, mewn unrhyw leoliad. Bydd hefyd yn drosedd i wneud trefniadau i gyflawni triniaeth o'r fath ar unigolyn o dan 18 oed. Mae 'rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff' yn cynnwys tyllu'r tethi, y fron, yr organau rhywiol, y ffolennau, neu'r tafod. Y prif nod yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y niwed posibl i iechyd y gellir ei achosi trwy gael twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac osgoi amgylchiadau pan roddir plant a phobl ifanc mewn sefyllfa lle y gallent fod yn agored i niwed.

## Rhan 6 Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodol. (Yn y Memorandwm Esboniadol, disgrifir asesiadau o'r effaith ar iechyd fel bod yn cynnig 'dull systematig o ystyried iechyd fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio. Maent yn arf y gellir ei ddefnyddio mewn unrhyw faes o weithgaredd sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, ac ar lefelau cenedlaethol a lleol'). Nod y Ddeddf yw mabwysiadu agwedd gymesur - byddai asesiadau yn

gyfyngedig i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni sy'n arwain at ganlyniadau o bwys cenedlaethol neu fawr, neu sy'n cael effaith sylweddol ar y lefel leol ar iechyd y cyhoedd.

## Rhan 7 Gwasanaethau fferyllol

Rhaid i unrhyw un sydd am ddarparu gwasanaethau fferyllol neu roi presgripsiynau wneud cais i'r bwrdd iechyd perthnasol i gael ei gynnwys ar restr fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw. O dan y Ddeddf, bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd gynnal a chyhoeddi 'asesiadau o anghenion fferyllol' ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Ddeddf yn diwygio'r prawf 'rheoli mynediad' cyfredol fel bod penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau i ymuno â rhestr fferyllol bwrdd iechyd yn seiliedig ar ba un a yw'r cais yn diwallu'r angen/anghenion a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol lleol. Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella'r modd y caiff gwasanaethau fferyllol eu cynllunio a'u darparu, a chryfhau rôl fferyllfeydd cymunedol o ran hyrwyddo ac amddiffyn iechyd y cyhoedd.

## Rhan 8 Darpariaeth toiledau

O dan y Ddeddf, bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Rhaid i hon gynnwys asesiad o angen ei gymuned am doiledau (gan gynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl), a rhaid iddi nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r angen hwn. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb ar eu strategaethau drafft. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch sut i baratoi, adolygu a chyhoeddi eu strategaethau, a rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn. Nid yw'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu na chynnal toiledau cyhoeddus, ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol, yn benodol, i awdurdodau lleol weithredu eu strategaethau toiledau. Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried 'ystod lawn o opsiynau' ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

## Rhan 9 Amrywiol a chyffredinol

Mae'r Ddeddf yn gwneud diwygiad technegol bach i Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 fel bod yn rhaid i'r arian a dderbynnir trwy hysbysiadau cosb benodedig, am beidio â chydymffurfio â'r cynllun sgorio hylendid bwyd, gael ei ddefnyddio gan awdurdodau bwyd (awdurdodau lleol yn bennaf) i sicrhau y cydymffurfir â'r cynllun. Bydd hyn yn sicrhau bod y Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn cyd-fynd â darpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru), sy'n nodi bod yn rhaid i arian a dderbynnir trwy hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddir o dan Ran 3 gael ei ddefnyddio gan awdurdodau gorfodi i gefnogi'r dyletswyddau newydd a osodir arnynt gan y penodau hyn yn y Ddeddf.

Mae'r **Nodiadau Esboniadol** sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf yn rhoi sylwebaeth ar yr adrannau unigol.

Mae crynodebau'r Gwasanaeth Ymchwil o'r Bil, y cyfeirir atynt isod, hefyd yn cynnwys rhagor o fanylion am ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth fel y'i cyflwynwyd, ac fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2.

# 3. Hynt drwy'r Cynulliad

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn y **Cyfarfod Llawn** gan Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd 2016.

## Cyfnod 1

Anfonodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Cynhaliodd y Pwyllgor **ymgynghoriad** cyhoeddus ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Rhagfyr 2016. Dechreuodd y Pwyllgor glywed tystiolaeth lafar ar 1 Rhagfyr 2016. Cynhaliodd 12 sesiwn dystiolaeth. Cyflwynodd y Pwyllgor **adroddiad** (PDF 962KB) ar ei ystyriaeth Cyfnod 1 o egwyddorion cyffredinol y Bil ar 10 Chwefror 2017.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** (PDF 702KB) a'r **Pwyllgor Cyllid** (PDF 780KB) adroddiadau hefyd ar eu hystyriaeth o'r Bil ar 10 Chwefror 2017.

Cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil **grynodeb o'r Bil** (PDF 996KB), cyn y **Ddadl Cyfnod 1** a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Chwefror 2017. Derbyniwyd y cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

## Cyfnod 2

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 1 Mawrth 2017. Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ystyried a gwaredu'r gwelliannau i'r Bil ar **23 Mawrth 2017**.

Derbyniwyd yr holl welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Er na dderbyniwyd yr un o welliannau'r gwrthbleidiau, dywedodd y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'n gweithio gydag Aelodau ac yn ystyried cyflwyno rhagor o welliannau mewn nifer o feysydd yng Nghyfnod 3.

Un o'r newidiadau allweddol a wnaed yng Nghyfnod 2 oedd codi'r cyfyngiad oedran arfaethedig ar gael twll mewn rhan bersonol o'r corff, o 16 i 18 oed. Gwnaed hyn mewn ymateb i argymhelliad gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn ei adroddiad Cyfnod 1.

Cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil **grynodeb wedi'i ddiweddaru o'r Bil** (PDF 315KB), gan grynhoi'r newidiadau yng Nghyfnod 2.

## Cyfnod 3

Cynhaliwyd ystyriaeth Cyfnod 3 a gwaredwyd y gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn ar **9 Mai 2017**.

Un newid sylweddol yng Nghyfnod 3 oedd cynnwys rhan newydd o'r Bil a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio strategaeth genedlaethol ar gyfer gordewdra a'i hadolygu'n gyson. Roedd gwelliannau gwrthblaid (Rhun ap Iorwerth AC, Plaid Cymru) wedi cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2. Ni dderbyniwyd y gwelliannau hyn, ond dywedodd y Gweinidog y byddai'n gweithio gyda'r Aelod dan sylw ac yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r mater hwn. Ar ôl hynny, cyflwynodd Plaid Cymru welliannau diwygiedig ynghylch strategaeth gordewdra, a derbyniwyd y rhain yng Nghyfnod 3.

## Cyfnod 4

Cafodd testun terfynol y Bil ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn **ar 16 Mai 2017**.

### Cydsyniad Brenhinol

Ar ôl i Fil gael ei basio, bydd cyfnod hysbysu o bedair wythnos yn dechrau. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff y Cwnsler Cyffredinol, y Twrnai Cyffredinol neu'r Ysgrifennydd Gwladol herio pa un a yw'r Bil (neu ran ohono) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a chyfeirio'r Bil at y Goruchaf Lys am benderfyniad.

Ni chafodd y Bil ei herio ac, wedi hynny, cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol trwy dudalen **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** ar wefan y Cynulliad.

## 4. Gweithredu'r Ddeddf

Yn ystod proses graffu Cyfnod 1, pwysleisiodd y Gweinidog y byddai angen gwneud gwaith manwl i ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau angenrheidiol i weithredu darpariaethau'r ddeddfwriaeth. Dywedodd wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon:

> *It's the intention to publish a detailed implementation of the Bill in due course as well, and that will give certainty and clarity to those bodies that are subject to the Bill, but also to members of the public and stakeholders with an interest, because obviously there's going to be a process of consultation and engagement with stakeholders as we move to develop those regulations.*